

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 1

Key language

Ydy'r... gyda ti/Ydy'r...gen ti?
Fy...
Dw i newydd
Ar fai

New words

rheswm
mynd yn llai
cur pen (NW)
anobeithiol
peidiwch becco (SW)
gair o gyngor
ar un adeg
wastad (SW)
tymer ddrwg
yn grac (SW)
dim rheswm
ymddiheuro
trafferth
tawelach

The series has a rather different format to that of previous years. It will be based on a drama series called Ysbyty Brynaber. There will be three episodes each week. The main grammatical points which feature in each episode will be introduced prior to the first episode and revised after the third episode. Monday's programme will look at the language patterns and vocabulary that will feature in the drama series. Friday night's programme will review the week's work.

The drama is based in a large hospital in mid-Wales. It'll follow the lives of 5 main characters.

Arwyn Saunders is a middle aged surgeon at the hospital. He appears to be a confident and strong personality but under the surface he has many problems. He's emotionally insecure and is immensely jealous of everyone. He has a very close relationship with his mother and that at the expense of his wife.

Jenny Saunders is Arwyn Saunders' wife. She's a doctor at the hospital and has put her career before everything else in life. They have no children.

Richard Allen's a newly qualified doctor at the hospital.

Agnes Rees is a middle aged Ward sister married to Brian who works as a sales rep. Brian's a bit of a philanderer but Agnes turns a blind eye to all his indiscretions.

Wendy Keating's a young student nurse at the hospital.

Main grammatical points

Expressing the possessive - gan and gyda with a definite noun

YDY'R pasports 'da ti - Have you got THE passports

MAE'R pasports 'da fi - I've got THE passports

In North Wales the construction is slightly different -

Mae'r pasports gen i or - Ydy'r pasports gen ti

gen i
gen ti
ganddo fo
ganddi hi
gynnon ni
gynnoch chi
ganddyn nhw

are the most common forms that you will hear.

Possessive pronoun – Fy – My

A form that is slightly different in spoken Welsh to its written form is FY – the MY form.

You have probably been taught the form fy - fy nghar - my car. You will notice that the fy form is hardly ever heard in everyday spoken Welsh. Fy nghar is pronounced as yng nghar i
'y mhoced i - my pocket

The fy disappears but the nasal mutation remains.

In front of words that do not take the nasal mutation the fy becomes yn - yn afal i, yn llyfr i.

Newydd

As you probably know, newydd as an adjective means new - car newydd - a new car

But when newydd comes before a verb-noun it means - just

Dw i newydd roi tri deg ceiniog yn y peiriant - I've just put thirty pence in the machine

Dw i newydd orffen - I've just finished.

Dw i newydd ei gweld hi - I've just seen her

Mae hi newydd dwlu lan - She's just been sick.

Notice that newydd is followed by the soft mutation.

Ar Fai

Fi sydd ar fai – It's my fault

Ti oedd ar fai – It was your fault

Useful Expressions

Mynd yn llai - Getting smaller

Dwi bron yn siwr - I'm nearly sure

Mae geni gur pen (North Wales) – I have a headache.
Mae pen tost 'da fi (South Wales) – I have a headache.

Peidiwch becho is a the South Wales equivalent of Peidiwch â phoeni – don't worry

Tymer ddrwg - bad temper

Yn grac – annoyed (South Wales)
Yn flin in North Wales

Ysbyty Brynaber: Episode 1

Arwyn Saunders and his wife Jenny have been on holiday in Florida. They are about to check in for their flight home. Meanwhile at Brynaber Hospital, Agnes the ward sister is having an informal chat with the new young doctor Richard Allen back at the check in the queue is taxing Arwyn's patience.

Geirfa

rheswm	-	reason
mynd yn llai	-	to get smaller
cur pen (NW)	-	headache
anobeithiol	-	hopeless
peidiwch beco (SW)	-	don't worry
gair o gyngor	-	a word of warning
ar un adeg	-	at one time

Golygfa 1

Arwyn - Gobeitho bydd yr awyren 'ma ar amser. Gobeitho bydd yr awyren 'ma ar amser, ddwedes i.
Jenny - Ie.
Arwyn - Ti'n meddwl bydd hi?
Jenny - Does dim rheswm pam ddylai hi ddim bod.
Arwyn - Hy.
Jenny - 'Hy,' be?
Arwyn - Jyst, 'Hy.' Ydy'r ciw 'ma'n mynd yn llai, dwed?
Jenny - Arwyn, plis...paid â gweiddi...
Arwyn - Dyn ni ddim wedi symud dim ers bron i ugain munud. Beth ddiawl sy'n mynd mla'n dwed?
Jenny - Elli di gadw dy lais i lawr? Ma' gen i gur pen.
Arwyn - Pen tost? Eto? Ydy'r pasports gyda ti?
Jenny - Ydy'r pasports gen i? Gen ti mae'r pasports.
Arwyn - Nage. Gyda ti mae nhw.
Jenny - Arwyn, ti'n siwr?
Arwyn - Yffach! Odw! Roies i'r ddau basport iti. Yn y 'stafell. Yn y gwesty. A roiest ti nhw yn dy fag. Ti ddim yn cofio?
Jenny - Dw i'n siwr wnes di ddim eu rhoi nhw i fi, ti'n gwbod...
Arwyn - Paid siarad! Dere dere! Edrycha yn dy fag...
Jenny - 'Drycha! Dydyn nhw ddim yn y bag.....
Arwyn - Edrycha yn dy bocedi 'te.
Jenny - Dydyn nhw ddim yn y mhocedi i. Na. Dydi'r pasports ddim gen i...
Arwyn - Wy ddim yn credu hyn!
Jenny - Arwyn, cofia bo gen i gur pen...
Arwyn - Beth yffach ti 'di 'neud 'te? E? Ti 'rioed wedi'u pacio nhw'n y ces? Go dam! Ti'n anobeithiol! Ti'n waeth nag anobeithiol!
Jenny - Dw i bron iawn yn siwr mai ti sy' wedi...
Arwyn - Pwy baciodd y ces? Mmmm? Ti neu fi?...
Helo? Mam, gwrandewch – alla i ddim siarad nawr...Na, na...Maes Awyr Orlando...Beth?...Na, na...Ma' bach o greisis...Jenny wedi paco'r pasports yn un o'r cesus...
Jenny - Ddim fi wnaeth...
Arwyn - Ni wrthi'n chwilo nawr...Na, newn ni ddim colli'r awyren...Na, na – peidwch beco nawr... 'Drychwch: well i fi fynd, ma'r ciw 'ma'n dechre shiffto...Ie...Na, ma' Jenny yn chwilo hefyd...Ydy...Dwpsen...O.K...Mam, ffonar i chi ar ol inni ffeindo nhw...lawn...Hwyl nawr...

Golygfa 2

Mae DIC yn sefyll ger peiriant sy'n gwerthu caniau coke a lemond ag ati.

Dic - Dam, dam, dam!

Agnes - Beth sy'? Problem...?

Dic - Oes...

Agnes - Y peiriant ar y blinc unweth 'to, ie? Ma' rhywbeth yn bod arno fe drwy'r amser...

Dic - Tempremental ydy e?

Dic - Oes...

Agnes - Mae e'n cymryd arian ond dyw e ddim yn rhoi dim yn ôl...

Dic - 'Na mhroblem i...Wy newydd roi tri deg ceiniog yn y slot fan hyn...Ond nawr mae angen tri deg pump ceiniog arall...

Dic - Oes...

Agnes - A 'sdim newid 'da chi...?

Dic - Na...Oes...

Agnes - Mae problem 'da chi felly.

Dic - Oes. Yn anffodus.....Oes...

Agnes - Dewch i fi weld os alla i helpu chi 'te...

Dic - Wy'n timlo'n bach o prat nawr...Oes...

Agnes - Tri deg pump cinog, ie?

Dic - Ie. Sori am hyn...Oes...

Agnes - Popeth yn iawn, Dr Allen.

Dic - Dic – plis...Oes...

Agnes - Dic?

Dic - Ie. Lot gwell 'da fi i bawb 'y ngalw i'n Dic. Oes...

Agnes - Ia...Wel...Alla i roi gair o gyngor i chi, - faswn i ddim yn gweud wrth staff y 'sbyty 'ma i'ch galw chi yn 'Dic'...

Dic - Wy'n casau Richard. Mae e'n neud i fi swno mor hen – 'Richard' - Ugh! 'Richard' – enw hen ffashiwn...

Agnes - Tri deg pump ceinog ynte?

Dic - Ie. Tri deg pump ceiniog...

Agnes - Co chi...Deg. Dau ddeg. Tri deg. A phump.

Dic - Diolch...

Agnes - 'Drychwch: gan bo' chi'n newydd 'ma, sdim rhaid ichi wrando arno i: ond fe roia i air o gyngor i chi beth bynnag...

Ar un adeg ro'dd 'na ddoctor yn arfer bod 'ma...Doctor Head...Dyn neis iawn o Warrington...Ond roedd e isie i bawb 'i alw fe'n Dic hefyd....

Dic - A! Ie!

Agnes - Fel wedes i, Doctor Allen...Jyst gair o gyngor ichi...O'r gore?

Ysbyty Brynaber: Episode 2

The passports were eventually found but not without giving Arwyn an opportunity to say to his wife: Ti'n anobeithiol ...ti'n waeth na anobeithiol. You're Hopeless ...you're worse than hopeless.

Matters don't improve during the flight home.

At the hospital Wendy Keating a young nurse has her first encounter with Richard the handsome young doctor.

Meanwhile 36,000 feet over the Atlantic, Arwyn Saunders is fast asleep.

Geirfa

wastad (SW)	-	always
tymer ddrwg	-	bad temper
yn grac (SW)	-	annoyed
dim rheswm	-	no reason
ymddiheuro	-	to apologise
acen	-	accent

Golygfa 1

Jenny - Arwyn...? ...Arwyn?

Arwyn - ...Mmm?...E...? Beth ti'n 'neud? Pam ti'n 'y neffro i?

Jenny - Ma'r airstewardess yn gofyn os wyt ti isio rhywbeth arall i yfed...?

Arwyn - Wnei di adael i fi gysgu?

Jenny - Ti wedi cysgu am dros bedair awr....Wyt ti'n teimlo'n well?

Arwyn - Can I have a gin an' tonic, please?

Jenny - Gin an' tonic arall? Ti'n siwr?

Arwyn - I'm sorry...But can you make it a large one? A double gin and tonic...?

Jenny - Arwyn, ti wedi cael tri dwbwl yn barod...

Arwyn - Paid a haslo fi trwy'r amser, nei di? Mae hon yn yffach o ffleit hir... Thank you very much...

Jenny - Alla i ddim yfed fel ti...

Arwyn - Wel, wy'n mwynhau yfed ar awyren. Wy wastad wedi mwynhau – iawn? O's problem 'da ti am hynny? Be sy'?

Jenny - Dim.

Arwyn - Na. Ti mewn tymer ddrwg. Yn grac i gyd. Dwed.

Jenny - Ti sy'n 'y ngwneud i'n flin.

Arwyn - Fi? Pam?

Jenny - Ti ddim wedi gofyn os ydy nghur pen i'n well.

Arwyn - Ydy dy ben tost di'n well?

Jenny - Rhy hwyr i ofyn rwan tydy? A busnes y pasports...

Arwyn - O, paid a dechre 'to –

Jenny - Yr holl palafa 'na'n Orlando...Dillad tros lawr y maes awyr ym mhobman a ti fel rhyw ffanatig yn taflu petha o gwmpas...A pawb yn edrych arnon ni...

Arwyn - O'dd hi'n banic arnon ni...

Jenny - Doedd dim rheswm i banicio!

Arwyn - Na, 'falle...

Jenny - A nest ti ddim ymddiheuro chwaith.

Arwyn - Iawn, iawn, iawn. Sori. Iawn? Fi oedd ar fai. Y fi roiodd nhw yn fy shoulderbag i. Ddim ti. Nest ti ddim eu rhoi nhw'n y siwtces. Y fi sy' ar fai. Fi a neb arall. Fi. Pam ti'n 'neud wyneb fel'na?

Jenny - Ti ddim wir yn meddwl be ti'n ddeud.

Arwyn - Wy wedi ymddiheuro. Be arall t'n moy'n?

Jenny - Dim ots. Dydy o ddim yn bwysig. Jyst...

Arwyn - Jyst beth, Jenny?

Jenny - Mae gen ti y 'knack' yma o sbwylio pob dim...'Dan ni wedi cael gwylia braf yn Fflorida...a wedyn, mewn eiliad – ti wedi sbwylio'r cwbl...

Arwyn - Paid a dechre nawr...
Jenny - Mae o'n wir dydy?

Golygfa 2

Wendy - Anyone sitting here?

Dic - No...No, take a seat...

Wendy - Thanks.

Dic - Let me move my tray...Make more room for you.....There we are...God, look at this table...Sorry...I'm a very messy eater...Why do I always make things looking like this...?

Wendy - Well, you know what they say?

Dic - No, what?

Wendy - About messy eaters...Second year nursing psychology course...all that Freud analytical stuff we had to do...

Dic - Ti'n siarad Cymraeg?

Wendy - Dysgu.

Dic - O'n i'n meddwl...

Wendy - How did you guess?

Dic - Hunch. A dy acen di. Ers faint wyt ti'n dysgu?

Wendy - Ddim dysgu as in dysgu...

Dic - Ni gyd wedi dysgu. Hyd yn oed Cymry iaith gynta.

Wendy - That's true. Yeah, I never thought of it like that before. Oedd dad wastad yn siarad Cymraeg ers oedd e'n kid...Oedd mam ddim... Oedd hi'n Saesneg...Rice an' chips...Half an' half kind of family 'dan ni...

Dic - Richard Allen dw i...

Wendy - Yeah. Dwi'n gwbod.

Dic - Wyt ti? Sut?

Wendy - Doctor newydd...dishy...word gets around...

Dic - Wir?

Wendy - Ah-uh...This hospital operates on jungle telegraph...You'll soon learn...Os wyt ti'n tishian yn y pyb ar nos Wener mae pawb wedi clywed erbyn bore dydd Llun...

Dic - Rhaid i fi fod yn ofalus 'te...

Wendy - Ti'n gwbod beth wy'n -

Dic - Sori - rhaid i fi fynd...Emergency. Hwyl!

Wendy - Twdl-w...

Ysbyty Brynaber: Episode 3

Arwyn's behaviour prompted Jenny to tell Arwyn: mae gen ti'r knack o sbwyllo bob dim mewn eiliad ...ti wedi sbwyllo'r cwblwl ...You have the knack of spoiling everything in a second ... you've spoilt everything.

It's Saturday night and Wendy Keating is about to go off duty. Agnes the Ward Sister approaches her ...

Geirfa

eiliad	-	a second
ar wib	-	in a hurry
mynd mas (SW)	-	to go out
twlu lan (SW)	-	to vomit
trafferth	-	trouble
tawelach	-	quieter

Golygfa 1

Agnes - Nyrs Keating?

Wendy - Ie, sister?

Agnes - Oes eiliad 'da chi?

Wendy - ...emmm...oes...pam...?

Agnes - 'Dych chi ar wib?

Wendy - Wib? What?

Agnes - Gwib. Hast. Hurry. You're obviously in a hurry.

Wendy - Yes and no...

Agnes - Ydych chi ne' ydych chi ddim?

Wendy - No, not really...I've just yyy.....jyst newydd orffen fy shifft ydw i...On my way back to the hostel...

Agnes - Wel, mae hi yn nos Sadwrn...?

Wendy - Ydi...

Agnes - A dych chi isie mynd mas?

Wendy - As always...There's a gang of us...Join the students and have a bit of a crawl around the seafront...Pam? Beth sy'? Oes 'na problem?

Agnes - O's...dych chi'n nabod Mrs Jarvis...?

Wendy - Yr old lady sydd yn mynd i cael cholecystectomy 'fory...?

Agnes - Dyna chi...

Wendy - Wy newydd 'i gweld hi jest nawr...

Agnes - Ddim yn y pum munud diwetha', ma'n amlwg...

Wendy - Why?

Agnes - Ma' hi newydd dwlu lan unwaith 'to...Dros y gwely i gyd. Ma' hi'n cael trafferth cadw bwyd i lawr

Wendy - Chi isie i fi fynd ati?

Agnes - Oes ots 'da chi, nyrs...?

Wendy - O, iawn...O.K, then...

Agnes - Fyddwch chi ddim yn hir iawn, wy'n siwr. Diolch...

Wendy - You're welcome...Bitsh!

Golygfa 2

Jenny - A beth am Fflorida ei hun?

Arwyn - Beth am Fflorida?

Jenny - Doedd o'n wych?

Arwyn - Roedd Miami ychydig yn rhy dwym i fi...

Jenny - On'doedd yr Everglades yn werth eu gweld? Ti'n cofio? Mynd yn y cwch 'na trwy'r swamp?

Mynd ar wib a'r gwynt yn dy wallt di...

Arwyn - Ti'n hen romantic, Jenny.

Jenny - A'r crocodeils...Cofio?
 Arwyn - Ych a fi!
 Jenny - Ffantastig on'd oeddan?
 Arwyn - A hyll. Yffach, o'n nhw'n hyll.
 Jenny - Alla i ddim disgwl i weld y llunia.
 Ond er bod hi'n boeth, roedd gweld y crocodeils 'na mor agos yn brofiad gwych, on'd oedd?
 Arwyn - Mmmm.
 Jenny - 'Mmmm' be? 'Mmmmm' do, dwi wedi mwynhau fy hun. Y gwylie gora erioed. Neu
 'Mmmm' dw i ddim cweit yn siwr...
 Arwyn - Yr 'mmmm' yn y canol rhwng y ddau 'Mmmm'...
 Jenny - Wel, mi faswn i'n mynd yn ol i Fflorida 'fory...Yn ol i fyw yno hefyd...Cael rhyw dy ar lan y
 mor...Yr haul ar 'y ngwyneb i bob bora....
 Arwyn - Jenny? Am beth yn y byd mawr ti'n chwilio?
 Jenny - Ro'n i'n meddwl 'i fod o yma... dw i'n chwilio am gaset...
 Arwyn - Pa un wyt ti isie?
 Jenny - Tunnel of Love...Bruce Springsteen...
 Arwyn - Oes 'na rhywbeth arall 'na? Rhywbeth tawelach?
 Jenny - Dw i isio bod mewn mwd gwylia o hyd...
 Arwyn - ...Idiot! Y car 'ma...Ddim yn dipio ei oleuadae...'Drycha...Dipia'r mwnci! Dipia nei di? Dipia!
 Yffach gols!
 Jenny - Arwyn, wyt ti wedi blino?
 Arwyn - Na'dw...
 Jenny - Ti'n siwr? Dwi'n teimlo'n reit jet-laged...
 Arwyn - Wel, wy'n teimlo'n iawn...
 Jenny - Wyt ti'n siwr bo' ti ddim isio i mi ddreifio? Beth oedd hwnna?
 Go dam! Jyst beth o'n ni moyn! Blydi pyncjar!
 Jenny - O, na...
 Arwyn - O, ie! Tipicial o'n lwc ni, ynte?

Synopsis

Arwyn Saunders and his wife Jenny are returning from their holiday in Florida. Arwyn is in a particularly bad mood and accuses his wife of losing their passports – *Ti'n anobeithiol Ti'n waeth nag anobeithiol* - You're hopeless – you're worse than hopeless he shouts at her. On the journey home Arwyn is plying himself with large gin and tonics. The drive home ends in a puncture and Arwyn and his wife waiting for the emergency service to arrive.

At the hospital the new doctor Richard, or Dic as he insists on being called, is introducing himself to the Ward sister – Agnes Rees '*Gair bach o gyngor i chi Dr Allen*' – a little word of advice for you. Dic has also met the young nurse Wendy Keating – they seem to get on quite well which is more than can be said for the relationship between Agnes and Wendy.

Test yourself

1. Translate 'you're worse than hopeless' into Welsh
 - a) *rwyt ti'n anobeithiol*
 - b) ***rwyt ti'n waeth nag anobeithiol***
 - c) *mae hi'n anobeithiol dros ben*
2. Translate 'I hope the plane will be on time' into Welsh
 - a) ***gobeithio bydd yr awyren ar amser***
 - b) *gobeithio bydd yr awyren yn hwyr iawn*
 - c) *gobeithio bydd yr awyren yn glanio*
3. Which of the following translates as 'a word of warning'?
 - a) *gair yn eich clust*
 - b) *gair sydyn*
 - c) ***gair o rybudd***
4. What's the Welsh in North Wales for 'headache'?
 - a) ***cur pen***
 - b) *pen bach*
 - c) *pen tost*
5. What's the Welsh verb for 'to apologise'?
 - a) ***ymddiheuro***
 - b) *ymladd*
 - c) *ymbincio*
6. How could we translate the Welsh phrase; 'I've just finished'?
 - a) *dw i newydd ddechrau*
 - b) ***dw i newydd orffen***
 - c) *dw i newydd fynd*